Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Glan Y Môr

**Ffordd Caerdydd**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 5NU**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Glan Y Môr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Glan Y Môr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Dwyieithog (Categori A) |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 469 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 468 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 21.1%) | 13.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 11.2%) | 9.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 77.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.3% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 23/01/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/12/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Glan y Môr yn gymuned ofalgar sy'n rhoi pwyslais ar feithrin ymdeimlad o gymuned a chefnogi lles disgyblion a staff. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol â disgyblion ac mae amgylchedd dysgu pwrpasol. O ganlyniad, yn ystod wythnos yr arolygiad, roedd ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda.

Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r ffordd mae'n hyrwyddo balchder yn iaith a diwylliant Cymru. Mae adran y Gymraeg a'r pwyllgor Cymreictod yn trefnu amrywiaeth o brofiadau cyfoethog i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion o'u bro ac annog balchder at yr iaith. Yn ogystal, mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a ddarperir i drafod testunau cyfoes a materion pwysig trwy'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Yn ogystal, maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a diwylliannol mewn digwyddiadau megis Gŵyl Glan y Môr ac amrywiol weithgareddau'r adran addysg gorfforol. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddylanwadu ar waith yr ysgol trwy Senedd yr ysgol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei gweithdrefnau i wella presenoldeb disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael digon o effaith, ac o ganlyniad, nid yw presenoldeb disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, wedi gwella. Yn ystod yr arolygiad, tynnwyd sylw'r ysgol i fater diogelu yn ymwneud â threfniadau amser cinio.

Mae mwyafrif y disgyblion, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd addas yn eu gwersi a dros amser, Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir a phwrpasol ar gyfer adnabod a chefnogi'r disgyblion hyn. Yn yr ychydig wersi ble mae'r addysgu ar ei orau, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mwy cyfyngedig. Mae hyn yn aml o ganlyniad i ddiffygion yng ngwaith cynllunio athrawon. Nid yw disgwyliadau lleiafrif o athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni mewn gwersi unigol a thros amser yn ddigon uchel. Er bod cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau mewn pynciau ar draws y cwricwlwm, nid yw'r ddarpariaeth yn ddigon cydlynol fel bod disgyblion yn datblygu eu medrau yn gynyddol.

Cefnogir y pennaeth yn bwrpasol gan aelodau'r uwch dîm arwain. Maent yn gweithio'n ddiwyd i ddiwallu eu dyletswyddau, er mae gan rai faich gwaith rhy drwm sy'n golygu nad ydynt bob amser yn gallu gweithredu'n ddigon strategol i yrru gwelliannau. Mae gan yr ysgol galendr buddiol o weithgareddau hunanwerthuso. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn arfarnu'n ddigonol effaith yr addysgu a'r ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion. Golyga hyn nad ydynt yn adnabod yr union feysydd sydd angen eu gwella yn ddigon miniog ac nid ydynt bob amser yn dal y rhai maent yn eu harwain yn ddigon atebol am ansawdd eu gwaith.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pump argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:

A1 Mynd i'r afael â'r mater diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Gwella presenoldeb

A3 Sicrhau bod athrawon bob amser yn cynllunio’r addysgu, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer y medrau, i herio disgyblion hyd eithaf eu gallu.

A4 Cryfhau’r arweinyddiaeth strategol gan gynnwys sut y dosrennir cyfrifoldebau i gynyddu capasiti mewn meysydd pwysig i’w gwella a chynyddu atebolrwydd.

A5 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ffocysu ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o’r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthynas waith gefnogol a chynhaliol â disgyblion. Mae ganddynt reolaeth ddosbarth gadarn ac arferion sefydledig sy’n cefnogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i setlo i waith yn brydlon a didrafferth. Mae’r disgyblion hyn yn gwrando’n gwrtais a pharchus ar gyfarwyddiadau eu hathrawon a chyfraniadau eu cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion yn cydweithio’n hapus pan gânt y cyfle i weithio fel pâr neu mewn grŵp bach. Yn yr ychydig wersi ble mae’r addysgu yn gryf ac egnïol, mae disgyblion yn chwilfrydig ac yn ymrwymo’n frwdfrydig i’w gwaith. Fodd bynnag, mewn ychydig o wersi, golyga natur yr addysgu a’r tasgau a osodir bod disgyblion yn rhy oddefol neu’n ddibynnol ar yr athro.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn a llwyddant i lywio’r dysgu yn addas trwy gynnig cyfarwyddiadau ac esboniadau clir. Mae llawer o athrawon yn holi cwestiynau yn briodol er mwyn helpu disgyblion i adalw eu gwybodaeth flaenorol. Maent yn cylchu’r dosbarth yn bwrpasol er mwyn gwirio bod disgyblion ar waith. Mae’r athrawon hyn yn fodelau iaith graenus sy’n defnyddio terminoleg a geirfa yn bwrpasol i helpu disgyblion ddatblygu eu medrau ieithyddol. O ganlyniad, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu.

Dros amser, mae lleiafrif y disgyblion yn gwneud llai o gynnydd nag y gallent. Yn yr achosion hyn, nid yw disgwyliadau'r athro yn ddigon uchel ac nid yw'r ddarpariaeth yn herio disgyblion, yn arbennig y rhai mwy galluog, i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Nid yw'r athrawon hyn yn ystyried yr amcanion dysgu'n ddigon gofalus, ac o ganlyniad, yn cynllunio cyfres o dasgau ailadroddus neu elfennol sy'n cadw disgyblion yn brysur yn hytrach nag ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Maent yn aml yn or-gyfarwyddo'r dysgu gan olygu bod llai o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth. Yn rhy aml, mae athrawon yn colli cyfleoedd i rannu enghreifftiau o waith da a thrafod meini prawf llwyddiant i helpu disgyblion wella ansawdd eu gwaith. Nid yw lleiafrif yr athrawon yn holi cwestiynau digon treiddgar, maent yn rhy barod i dderbyn atebion sylfaenol ac nid ydynt yn herio disgyblion i feddwl yn ddwfn am eu hatebion. Mewn ychydig bynciau, mae taflenni gwaith nad ydynt wedi eu cynllunio yn ddigon da yn cyfyngu ar gynnydd disgyblion.

Yn yr ychydig achosion ble mae'r addysgu ar ei orau, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn dda ac yn ei gymhwyso i gyd-destunau newydd yn fedrus. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn arddangos brwdfrydedd heintus tuag at eu pynciau ac yn cynllunio'n fedrus gan osod disgwyliadau uchel o ran ymgysylltiad, ymdrech a chyflawniad y disgyblion. Maent yn cynllunio tasgau sy'n adeiladu'n raddol ar ei gilydd fel bod disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gymhwyso eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau i gyd-destunau newydd a mwy anghyfarwydd. Holant gwestiynau yn grefftus gan annog disgyblion i feddwl yn ddwfn a chynhyrchu cyfraniadau llafar o ansawdd uchel. Maent yn adnabod camsyniadau a chamgymeriadau yn y dysgu yn amserol ac yn addasu cyflymder y wers a lefel yr her i gydweddu â dysgu'r disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn modelu'r dysgu yn effeithiol tu hwnt trwy ddefnyddio enghreifftiau o waith da a meini prawf llwyddiant yn gelfydd.

Cynigia lawer o athrawon adborth llafar ac ysgrifenedig addas i helpu disgyblion wella eu gwaith. Yn yr ychydig enghreifftiau gorau, mae athrawon yn cynnig sylwadau buddiol sy'n cefnogi disgyblion yn dda i ddeall beth sydd angen ei wella. Yn yr achosion hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ran ymateb y disgyblion, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Fodd bynnag, nid oes cysondeb yn ansawdd yr adborth a gynigir. Nid yw sylwadau bob amser yn ddigon penodol, maent yn or-ganmoliaethus neu nid ydynt yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ymateb er mwyn iddynt wneud gwelliannau i gynnwys ac ansawdd eu hymatebion.

Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu llythrennedd yn adran y Gymraeg yn gryfder. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd y ddarpariaeth ar draws y pynciau ac nid oes sylw cyson i helpu disgyblion wella a datblygu eu medrau yn gynyddol. Nid yw'r arweiniad ar gyfer gwella ansawdd medrau disgyblion yn ddigon strategol er mwyn adnabod a gweithredu ar yr union agweddau sydd angen eu datblygu.

Yn y gwersi Cymraeg, mae bron bob un disgybl yn cyfrannu'n briodol a synhwyrol ar lafar gan gyfleu eu hunain yn eglur a chywir. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cyfraniadau aeddfed wrth drafod mewn parau neu grwpiau bach ac maent yn gwneud pwyntiau dilys yn rhugl a chroyw o gael eu holi. Yn y gwersi Saesneg, mae mwyafrif y disgyblion yn cyfrannu'n briodol i drafodaethau dosbarth. Mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa bynciol yn

addas ac yn cynnig atebion priodol i gwestiynau'r athro. Yn yr ychydig wersi ble mae'r addysgu ar ei orau, mae disgyblion yn cynnig atebion soffistigedig gan esbonio eu rhesymeg yn hynod aeddfed. Fodd bynnag, mae lleiafrif y disgyblion yn dawedog neu maent yn cynnig atebion byr iawn i gwestiynau'r athro.

Er bod cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu yn gynyddol yn y gwersi Cymraeg a Saesneg, mae ansawdd y cyfleoedd ar draws y cwricwlwm yn rhy amrywiol. Yn y gwersi Cymraeg, mae cyfleoedd cyson i ddarllen ystod eang o erthyglau cynhwysfawr a gall rhan fwyaf y disgyblion grynhoi gwybodaeth o ffynonellau yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn gallu cymharu a chyferbynnu gwybodaeth yn effeithiol gan dynnu sylw at debygrwydd a gwahaniaethau mewn darnau darllen cymhleth. Yn y gwersi Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn syntheseiddio gwybodaeth a dadansoddi sut mae awdur yn portreadu cymeriadau yn effeithiol, er enghraifft wrth ddadansoddi cymeriad y warden yn nofel Louis Sachar, 'Holes'. Mewn llawer o bynciau ar draws y cwricwlwm, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu yn gynyddol uwch fedrau darllen, megis dehongli i ganfod ystyr sydd ymhlyg mewn testun er mwyn cymhwyso'r hyn a ddysgant yn eu gwersi iaith.

Yn eu gwersi Cymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd yn dda. Er enghraifft wrth iddynt gyflwyno erthygl am frwydr Eileen a Trevor Beasley. Yn y gwersi Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n addas. Trwyddi draw, mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadeg esgeulus yn eu gwaith. Mewn lleiafrif o bynciau ar draws y cwricwlwm, nid oes digon o gyfleoedd pwrpasol a rheolaidd i ddisgyblion ysgrifennu yn estynedig. Mae hyn yn cael effaith ar y cynnydd a wnânt yn eu medrau ysgrifennu.

Mae gan fwyafrif y disgyblion afael addas ar gysyniadau rhif. Maent yn medru defnyddio'r pedair rheol i ddatrys problemau ac maent yn gweithio'n hyderus gyda rhifau sydd mewn gwahanol ffurfiau. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o waith siâp a mesur yn briodol ac yn dadansoddi data yn effeithiol. Er enghraifft pan maent yn cyfrifo cyfartaleddau a llunio graffiau yn hyderus. Maent yn dadansoddi gwybodaeth raffigol yn effeithiol, er enghraifft wrth lunio a dadansoddi graffiau hinsawdd am Bwllheli a choedwig drofannol. Mae gan ychydig ddisgyblion fedrau rhif cryf. Er enghraifft, maent yn cymhwyso eu dealltwriaeth o drigonometreg i ddatrys problemau sydd wedi eu gosod mewn cyd-destun. Maent hefyd yn gallu cyfiawnhau eu syniadau mewn modd mathemategol a gallant gyffredinoli patrymau. Fodd bynnag, mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau rhif gwan. Cânt drafferth gyda phroblemau pedair rheol a gwerth lle.

Ar draws y cwricwlwm, mae cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau rhifedd y disgyblion, gyda lefel yr her a phriodoldeb y tasgau yn addas mewn llawer o achosion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r tasgau rhifedd hyn yn ddigon heriol i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion. Nid oes digon o gyfleoedd i ddatblygu cysyniadau rhif, er enghraifft canrannau, mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm.

Mae nifer o gyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau digidol ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i greu gwefannau a phodlediadau a chyflwyno gwybodaeth gan ddefnyddio amrediad eang o feddalwedd. Yn gyffredinol,

mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau digidol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, gallant ddefnyddio meddalwedd i ryngweithio a chreu animeiddiadau a GIFs.

Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau corfforol yn dda, er enghraifft wrth chwarae pêl-rwyd a phêl fasged yn eu gwersi addysg gorfforol ac wrth ddefnyddio medrau modur bach wrth drin fforc a chribyn i weithio ar y pridd yn y gwersi dysgu awyr agored. Mae disgyblion yn frwdfrydig wrth gyfrannu i weithgareddau corfforol a chydweithiant yn effeithiol a chytûn.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer gwireddu Cwricwlwm i Gymru sydd wedi ei seilio'n gadarn ar hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol o feithrin balchder disgyblion yn eu Cymreictod a'u gwreiddiau yn ardal Pwllheli. Mae'r cynnig cwricwlwm hwn ar gyfer disgyblion iau yr ysgol yn eang a chytbwys. Mae adrannau'n cydweithio'n briodol er mwyn cynllunio profiadau dysgu difyr ar gyfer y disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae hyn yn cael effaith bositif ar fedrau disgyblion a'u hymrwymiad tuag at eu dysgu. Er enghraifft, er mwyn cynyddu diddordeb carfan o ddisgyblion mewn astudio llenyddiaeth Gymraeg, mae'r adrannau Cymraeg ac Addysg Gorfforol wedi defnyddio dulliau ymarferol, a luniwyd ar y cyd â'r disgyblion, er mwyn addysgu'r nofel 'Llinyn Trôns'.

Mae disgyblion iau yr ysgol yn elwa o wersi addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) pwrpasol i'w helpu i ddatblygu eu medrau personol a cymdeithasol. Mae'r ysgol wedi ystyried a diwygio cynnwys y gwersi hyn yn ofalus er mwyn ymateb i ddadansoddiadau o holiaduron lles, materion allweddol a nodwyd trwy waith y staff bugeiliol a blaenoriaethau cenedlaethol. Yn y gweri hyn, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu dealltwriaeth o bynciau fel camddefnyddio sylweddau, cydraddoldeb a gor-bryder. Mae'r gwersi hyn wedi eu cynllunio'n gelfydd gyda phresenoldeb y tegan meddal, Largo yr eliffant, yn y gwersi Blwyddyn 7, yn hwyluso dechrau trafodaethau am bynciau sensitif. Fodd bynnag, nid yw'r sesiynau ABCh ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn digwydd yn ddigon rheolaidd ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglenni ymyrraeth pwrpasol i ddatblygu medrau darllen a rhifedd disgyblion sydd â medrau gwannach. Mae'r ysgol yn cynnig rhai profiadau gwerthfawr i ddisgyblion mwy galluog mewn partneriaeth â'r cynllun SEREN. Fodd bynnag, nid oes strategaeth ddigon clir ar draws yr ysgol i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion mwyaf abl a thalentog.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cefnogaeth fuddiol i helpu disgyblion ystyried eu camau nesaf a gyrfaoedd amrywiol, gan gynnwys cyfleoedd profiad gwaith gwerthfawr. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o opsiynau, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol megis dysgu awyr agored ac iechyd a gofal. Yn ogystal, mae wedi ehangu ei chynnig cwricwlwm drwy bartneriaethau buddiol â cholegau lleol i fodloni dyheadau disgyblion. Er enghraifft, cynigir amaethyddiaeth, y cyfryngau creadigol a pheirianneg.

Mae amryw weithgareddau allgyrsiol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu medrau ehangach, gan gynnwys eu medrau cymdeithasol. Mae'r

cyfleoedd hyn yn cynnwys clwb gemau, gweithgareddau chwaraeon amrywiol a'r clwb gwyddbwyll.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu'n ysbrydol ac yn foesol trwy ddysgu am amrywiaeth, hawliau dynol, moeseg a dinasyddiaeth. Er enghraifft, mae Senedd yr ysgol wedi codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd goddefgarwch drwy arwain 'Prosiect Parch' yr ysgol. Mae cyfleoedd cyfoethog a niferus i'r disgyblion ddathlu eu Cymreictod a datblygu eu dealltwriaeth o'u diwylliant. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i gydweithio â beirdd a llenorion lleol yn rhan o brosiect 'Hen Alawon Newydd'.

**Lles, gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Ysgol Glan y Môr yn gymuned ofalgar a chefnogol sy'n rhoi lle amlwg i bwysigrwydd datblygu amgylchedd o barch a thegwch. Hyrwyddir hyn yn bwrpasol gan waith Senedd yr ysgol mewn 'Prosiect Parch' sy'n pwysleisio rhinweddau megis amynedd, gwrando, cydweithio a charedigrwydd. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn hynod groesawgar a chwrtais wrth sgwrsio ag ymwelwyr ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos parch at eu hathrawon a'u cyfoedion mewn gwersi ac o amgylch safle'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn eu gwersi ac o amgylch safle'r ysgol, gan ddangos parch at eu hathrawon a'u cyd-ddisgyblion. Mae gan yr ysgol bolisi ymddygiad priodol i ddelio ag unrhyw achosion o gamymddwyn. Fodd bynnag, mae'r polisi hwn yn gymhleth i ddisgyblion a staff gan olygu bod peth anghysondeb yn y ffordd mae staff yn ymateb i achosion o gamymddwyn. Golyga hyn nad yw'r ysgol bob amser wedi gallu rhoi darpariaeth ar waith i gefnogi disgyblion i beidio ag ailadrodd achosion o gamymddwyn. Nid oes trefniadau ar waith i wobrwyo disgyblion am ymddygiad a phresenoldeb da.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i drafod testunau pwysig a chyfoes megis iechyd meddwl a bwyta'n iach. Ceir ymgyrchoedd effeithiol yn rhan o'r cynllun gwaith ABCh i gynyddu ymwybyddiaeth disgyblion am fod yn rhydd rhag cam-drin corfforol, emosiynol a geiriol. Mae'r ysgol yn dechrau datblygu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol trwy ymgymryd â rolau arwain yn Senedd yr ysgol. Maent wedi dylanwadau'n gadarnhaol ar ychydig o agweddau megis newidiadau i'r polisi gwisg ysgol ac adnabod gwerthoedd ar gyfer y 'Prosiect Parch'. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddylanwadu'n gadarnhaol ar addysgu mewn ychydig adrannau.

Rhwng blynyddoedd academaidd 2018-2019 a 2023-2024, gostyngodd cyfradd presenoldeb yr ysgol yn flynyddol a hynny'n fwy na'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Y llynedd eto, roedd yn sylweddol is na'r hyn a welwyd mewn ysgolion tebyg. Mae'r gyfradd absenoldeb parhaus yn uwch nag ysgolion tebyg. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn sylweddol is na chyfartaledd ysgolion tebyg. Mae'r garfan o ddisgyblion sydd brin yn mynychu'r ysgol yn cael effaith fawr ar gyfradd presenoldeb yr ysgol.

Mae arweinwyr yn dadansoddi data presenoldeb yn briodol er mwyn adnabod patrymau a rhesymau dros absenoldeb disgyblion. Maent yn cymryd camau addas i gryfhau'r ddarpariaeth. Er enghraifft, yn ddiweddar, penodwyd swyddog presenoldeb

i gefnogi'r gwaith hwn. Mae arweinwyr yn cydweithio'n agos â thîm presenoldeb yr awdurdod lleol i ddarparu cefnogaeth briodol i gefnogi disgyblion i ailgysylltu â'u dysgu. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y gwaith hwn ac nid yw'r prosesau i fynd i'r afael ag absenoldeb parhaus yn ddigon effeithiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd allgyrsiol a chwricwlaidd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau corfforol a'u hymwybyddiaeth ddiwylliannol, megis mabolgampau'r ysgol, Gŵyl Glan y Môr ac Eisteddfod yr ysgol. Mae'r arlwy o alldeithiau wedi'i chyfoethogi eleni, er enghraifft wrth gynnig taith dramor i Ffrainc a theithiau i'r theatr.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn wrth weithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae'r Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) yn darparu gwybodaeth fanwl am anghenion disgyblion ynghyd â chynnwys targedau penodol. Mae gan y tîm ADY adnabyddiaeth dda o anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu penodol. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar trwy'r broses bontio gryf. Mae'r tîm ADY yn trafod anghenion disgyblion gyda'r ysgolion cynradd ac yn adolygu eu CDU yn addas. Drwy ddatblygu dealltwriaeth dda o anghenion disgyblion, mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm addas a phwrpasol ar eu cyfer. Mae'r tîm ADY yn monitro cynnydd y disgyblion o'u mannau cychwyn yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn dadansoddi data llythrennedd a rhifedd yn ofalus ac mae ymyraethau pwrpasol ar gyfer anghenion y disgyblion. Mae hyn yn cynnwys sesiynau boreol byr a gwers benodol wythnosol i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r tîm ADY yn cynnig ymyraethau lles penodol yn yr 'Hafan' i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau cymdeithasol.

Trefnir hyfforddiant pwrpasol i staff yr ysgol ar ddulliau o gefnogi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. I sicrhau dealltwriaeth o anghenion disgyblion unigol, mae crynodeb defnyddiol o anghenion dysgu'r disgyblion yn cael ei rannu gyda'r staff. Cefnogir y wybodaeth gan ganllawiau defnyddiol ar anghenion penodol i gynorthwyo staff wrth gynllunio gwersi. Golyga hyn fod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau a'u mannau cychwyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd rhag unrhyw fwlio neu aflonyddu. Ceir prosesau cadarn i fynd i'r afael â'r ychydig achosion o fwlio sy'n codi, gan gynnwys cynllun gweithredu clir a chofnod manwl o ddilyniant. Mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant statudol cyson ar faterion diogelu ac mae hyn yn sicrhau bod staff a llywodraethwyr yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau gweinyddol ynghylch caniatáu i ddisgyblion adael yr ysgol ar ganol dydd yn briodol.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn arweinydd cefnogol sy'n arddel gwerthoedd caredigrwydd a pharch. Mae ganddo weledigaeth glir yn seiliedig ar gynnig profiadau cyfoethog i ddisgyblion Ysgol Glan y Môr, er mwyn eu paratoi i gyfrannu'n llawn i'r gymuned leol wrth iddynt adael yr ysgol. Mae'r weledigaeth, 'Gwreiddio pob disgybl yn ein bro, iaith, diwylliant a'n hamgylchfyd', yn greiddiol i wireddu hyn ac wedi ei rhannu'n llwyddiannus â'r holl staff a disgyblion. Fodd bynnag, dros amser, nid yw'r arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar agweddau pwysig ar waith yr ysgol,

megis gwella presenoldeb a chynllunio’r addysgu, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer y medrau, i herio disgyblion hyd eithaf eu gallu.

Mae’r pennaeth yn cael ei gefnogi’n frwd gan aelodau’r uwch dîm arwain. Maent yn ymgymryd â’u rolau yn ddiwyd ac yn cydweithio â’i gilydd yn bwrpasol. Mae llinellau atebolrwydd yn glir yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, nid oes cydbwysedd priodol yn y cyfrifoldebau sy’n golygu bod baich gwaith trwm gyda rhai aelodau. Golyga hyn nad yw arweinwyr bob tro’n cael digon o gyfleoedd i weithredu’n strategol a gyrru gwelliannau yn eu meysydd cyfrifoldeb yn effeithiol.

Mae ychydig o arweinwyr canol yn effeithiol iawn yn eu rolau ac wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau darpariaeth gref a deilliannau uchel dros amser. Er hyn, mae anghysondeb yn effeithiolrwydd arweinwyr canol. Ar y cyfan, mae gan arweinwyr ar bob lefel ddealltwriaeth briodol o’r prif gryfderau a’r meysydd bras sydd angen eu gwella ond nid ydynt yn blaenoriaethu’r agweddau y mae angen iddynt fynd i’r afael â nhw yn ddigon miniog. O’r herwydd, nid yw’r ysgol wedi mynd i’r afael yn ddigon amserol â rhai agweddau pwysig.

Mae arweinwyr canol yn gwerthfawrogi’r gefnogaeth fuddiol a roddir gan aelodau o’r uwch dîm arwain mewn cyfarfodydd rheolaeth llinell. Yn y cyfarfodydd rheolaeth llinell gyda phenaethiaid adrannau, mae arweinwyr yn ffocysu’n addas ar ddatblygu agweddau megis gweithio ar gynlluniau datblygu adrannol a dadansoddi canlyniadau. Fodd bynnag, nid yw’r cyfarfodydd hyn yn ffocysu’n ddigon miniog nac aml ar ddysgu ac addysgu. Yn ogystal, nid yw arweinwyr bob amser yn dal y rhai maent yn eu harwain yn ddigon atebol am ansawdd eu gwaith.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw cymwys i rai blaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu’r Gymraeg, ymateb yn llawn i’r newidiadau yn y côd anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus, ac wrth ddatblygu Cwricwlwm i Gymru sydd â ffocws cryf ar yr ardal leol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi cael digon o effaith ar wella presenoldeb disgyblion.

Mae gan arweinwyr drefniadau cadarn i leihau effaith tlodi ar ymroddiad a chyrhaeddiad disgyblion. Mae’r swyddog cefnogi teuluoedd yn rhoi cymorth buddiol i blant a’u teuluoedd i ymgysylltu â’u haddysg. Mae’r ysgol yn sicrhau bod cyfle cyfartal i ddisgyblion gael profiadau cyfoethogi ac allgyrsiol, er enghraifft trwy dalu am deithiau a gwersi cerddoriaeth. Mae’r grant datblygu disgyblion yn cael ei ddefnyddio’n  briodol i gefnogi lles a chynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’r rhai sydd o aelwydydd incwm isel. Serch hyn, nid yw arweinwyr wedi cael digon o effaith ar bresenoldeb y disgyblion hyn ac nid ydynt yn gwerthuso’r defnydd o’r arian hwn yn ddigonol.

Mae gan yr ysgol galendr defnyddiol o weithgareddau hunanwerthuso. Mae’r gweithgareddau hyn yn cynnwys cyfleoedd buddiol i ymweld â gwersi, craffu ar waith disgyblion a holi eu barn. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn arfarnu’r ddarpariaeth yn ddigonol yn ôl yr effaith a gaiff ar gynnydd disgyblion a pha mor dda maent yn datblygu eu medrau. O ganlyniad, mewn rhai achosion, mae gan arweinwyr farn or-hael o ansawdd y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn dadansoddi data yn briodol, gan adnabod cryfderau a meysydd i’w gwella mewn deilliannau grwpiau o ddisgyblion ac agweddau o fewn eu meysydd. Yn yr arferion gorau, maent yn cynllunio’n fanwl y modd y byddant yn gwella’r ddarpariaeth ar sail hyn.

Mae staff yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd eang i ymgymryd â chyfleoedd dysgu proffesiynol ac mae datblygu addysgeg wedi bod yn rhan annatod o ddatblygiadau Cwricwlwm i Gymru. Mae yna raglen fuddiol o weithgareddau dysgu proffesiynol sy'n cynnwys hyfforddiant mewnol ac allanol. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithgareddau addas i gefnogi datblygiad yng ngwybodaeth broffesiynol, medrau addysgu ac arweinyddiaeth staff. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae yna gyswllt addas rhwng canfyddiadau gweithgareddau hunanwerthuso, yr amcanion rheoli perfformiad a'r rhaglen dysgu proffesiynol. Mae staff yn cael cyfleoedd buddiol i drafod eu dyheadau datblygu yn rhan o'r broses rheoli perfformiad. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn adnabod yr union feysydd sy'n flaenoriaethau i'w datblygu neu nid ydynt yn arfarnu effaith dysgu proffesiynol yn ddigonol ac felly nid yw'r rhaglen bob amser yn ffocysu ar yr agweddau mwyaf pwysig sydd angen eu gwella. O ganlyniad, nid yw dysgu proffesiynol wedi cael digon o effaith ar wella ansawdd yr addysgu na medrau arweinyddiaeth staff.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol o'r ysgol ac maent yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol am waith yr ysgol gan y pennaeth, arweinwyr eraill a disgyblion. Mae strwythur synhwyrol o is-bwyllgorau lle mae'r llywodraethwyr yn cynnig her briodol i arweinwyr ar faterion fel presenoldeb, y cwricwlwm, canlyniadau pynciol a phenderfyniadau cyllidol. Mae'r pennaeth, rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn monitro cyllid yr ysgol yn ofalus i sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd yn agos â'r hyn sydd wedi ei gynllunio. O ganlyniad, mae'r ysgol yn rheoli ei chyllideb yn gadarn.

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwerthuso y defnydd o'r grant datblygu disgyblion yn ddigonol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  06/02/2025